# Y Weddw oedd yn gwrthod rhoi’r gorau iddi



TRUEWAY KIDS.com

# Cyflwyniad

Drwy gydol ei weinidogaeth, adroddodd yr Iesu lawer o ddamhegion i helpu i esbonio gwirionedd Beiblaidd. Yr wythnos hon byddwn yn astudio'r un a ganfuwyd yn Luc 18:1-8 i'n dysgu am weddi.

Prif Bwyntiau:

1. Dylen ni weddïo heb roi'r gorau iddi.
2. Mae dyfalbarhad yn bwysig.
3. Mae Duw yn dda a bob amser yn gwneud beth sydd orau.

## Canllaw Gwers

Gofynnwch i'ch plentyn os yw'n gwybod beth mae dyfalbarhad yn ei olygu? Maen nhw'n debygol o'i ddeall yn yr ystyr negyddol o nagio. Rhannwch sut mae'n golygu parhau i weithio ar rywbeth hyd yn oed pan mae'n anodd neu'n cymryd amser hir i ddysgu. Ydych chi erioed wedi cymryd amser hir i ddysgu rhywbeth? Rhannwch rywbeth sy'n cymryd amser i ddysgu fel canu offeryn cerdd, arlunio, neu goginio.

Mae'n wir bwysig dangos i'ch plentyn nad Duw yw'r barnwr yn y ddameg. Dydy e ddim byd tebyg i Dduw! Mae Duw yn dda! Mae Iesu'n defnyddio'r barnwr fel gwrthgyferbyniad i Dduw. Soniwch am rai cyferbyniadau fel golau a thywyllwch, araf a chyflym.

Weithiau pan fyddwn ni'n gweddïo, bydd Duw fel pe bai'n ateb yn syth. Dro arall, bydd rhaid aros yn hir i Dduw ateb. Mae Duw wastad yn ateb. Weithiau, mae'n dweud 'Iawn'. Weithiau, mae'n dweud 'Na' ac weithiau, mae'n dweud 'Aros'.

Chwaraewch gêm gyda'ch plentyn. Y nod yw croesi gofod. Efallai y bydd y plentyn yn gofyn am gymryd sawl herc, cam a naid. Bob tro mae'r plentyn yn gofyn, atebwch naill ai 'Iawn', 'Na', neu'Aros' Os byddwch yn ymateb, 'Aros', rhowch amser penodol i'r pentyn, a chyfri'r eiliadau gyda'ch gilydd cyn y gall y plentyn fwrw ymlaen â'i gais. Peidiwch â dweud dim mwy nag unwaith wrth y plentyn. Rhowch anrheg fach i'r plentyn ar ddiwedd y gêm. Atgoffwch y plentyn na fyddai wedi cael yr anrheg pe bai wedi rhoi'r gorau iddi hanner ffordd ar draws y llawr.

Mae aros yn gallu bod yn anodd—yn enwedig pan mae'n ymddangos bod y nod sydd gennym ni allan o'n cyrraedd 'sdim ots faint rydyn ni'n trio . Ond eto mae Duw yn gwybod popeth. Mae'n gwybod a oes angen 'Iawn' i'n gweddi neu a oes angen'Aros' neu'Na'.

Trafodwch rai dymuniadau rydych chi wedi eu gwneud yn eich bywyd neu rai sydd gan eich plentyn. At ddibenion darluniadol, gall y rhain fod yn wirion. Enghraifft: Siaradwch am ddymuniad fel eisiau i'ch gwallt dyfu'n gyflym iawn. Yna trafodwch rai o'r problemau allai ddigwydd. Hefyd, siaradwch am gyfnod y gofynnodd eich plentyn am wneud rhywbeth, a dywedoch chi 'Na' neu 'Aros'. Esboniwch yn union fel y gwyddoch chi beth sy orau i'ch plentyn y gŵyr Duw beth sy orau i'w blant.

Bydd Duw bob amser yn gwneud yr hyn sydd orau i'w bobl, boed hynny'n dweud 'Iawn', 'Na' neu 'Aros'.

Rhowch ffrwyth fel mefus neu afalau ar y bwrdd. Bydd angen un sy'n aeddfed ac yn barod i'w fwyta, ac un sy'n wyrdd ac yn anaeddfed. Torrwch y ffrwythau a'u profi gyda'ch plentyn. Wrth i chi dynnu wyneb ar ôl profi'r ffrwyth sur, anaeddfed, siaradwch am sut mae aros am yr amser priodol yn bwysig. Mae'r ffrwyth yn felys ar yr amser iawn. Darllenwch Galatiaid 6:9.

Rhannwch atebion 'Iawn','Na', ac 'Aros' i rai o'ch gweddiau Rhannwch sut yn union, fel y fenyw yn y stori, dylen ni barhau i weddïo ac ymddiried yn Nuw a fydd yn ateb ein gweddïau yn y ffordd orau.

Diolchwc h i Dduw ei fod yn ateb gweddi. Gofynnwch iddo eich helpu i weddïo heb roi'r gorau iddi.

© 2023 truewaykids.com



Dywedodd Iesu fod y barnwr yn ddrwg, ond yn y pen draw gwnaeth beth oedd yn iawn.

Ond mae Duw yn dda.

Dywedodd wrth ei ddilynwyr am barhau i weddïo a pheidio byth rhoi'r gorau iddi.

Mae Duw yn clywed ac yn ateb gweddi.






Dywedodd Iesu stori i ddysgu am weddi.

Roedd gwraig weddw oedd angen help gan farnwr.

Doedd y barnwr ddim yn ddyn neis. Doedd e ddim yn poeni am Dduw na'r wraig.



Dywedodd wrth y wraig weddw am fynd i ffwrdd a gadael llonydd iddo.

Ond wnaeth y wraig weddw ddim roi'r ffidil yn y to.

Ddydd ar ôl dydd, ymbiliodd ar y barnwr i'w helpu.

Ddydd ar ôl dydd, dywedodd y barnwr "na".





Yny diwedd, cafodd y barnwr ddigon ar y fenyw.

Meddyliodd, fe'i helpa i hi fel ei bod yn gadael llonydd i fi.

Roedd y wraig yn hapus achos o'r diwedd, fe wnaeth y barnwr beth oedd yn iawn.

# Gêmau a gweithgareddau

## Heriau



Rhowch heriau anodd ond rhai y gallant eu cyflawni i'ch plentyn,er enghraifft cerdded ar draws ystafell yn cario gobennydd ar eu pen neu ddal pêl ddeg gwaith heb ei gollwng.

Anogwch nhw i ddal ati nes iddyn nhw feistroli’r sgil a'u llongyfarch. Sôniwch am sut petaen nhw wedi rhoi'r gorau iddi, fydden nhw byth wedi cyflawni'r dasg.



## Cuddio a Cheisio

Allwch chi byth fynd o'i le gyda gêm o guddio a chwilio. Mae plant wrth eu boddau. Cymerwch eich tro i guddio neu chwilio am wrthrych. Wrth i chi chwarae, llongyfarchwch eich plentyn am beidio â rhoi'r ffidil yn y to nes iddo ddod o hyd i'r person neu'r gwrthrych.


## Dysgu'r weddi 5-bys





Mae sawl dull ar gyfer defnyddio bysedd i’n hatgoffa i weddïo. Dyma un enghraifft boblogaidd.Defnyddiwch y bawd i weddïo dros y rhai agosaf atoch chi, fel teulu a ffrindiau,  y mynegfys ar gyfer y rhai sy'n eich pwyntio i'r cyfeiriad cywir (athrawon, bugail ac ati).  Mae'r bys canol ar gyfer gweddo am ein harweinwyr a’r bys modrwy ar gyfer gweddio am y rhai sy'n wan, yn sâl, ac mewn angen.Gyda’r bys bach rydyn ni'n gweddïo drosom ein hunain.


© 2023 truewaykids.com


# Cylchu'r gwrthrych trymaf























© 2023 truewaykids.com

# Lliwiwch y ffrwyth

## Anaeddfed



## Aeddfed



© 2023 truewaykids.com

# Dal y barnwr





## Sut i chwarae

Mae'r barnwr yn rholio'r dis yn gyntaf.


Cymerwch eich tro i'w rolio.

Rhaid i'r weddw ddal y barnwr cyn iddo gyrraedd canol y bwrdd.

© 2023 truewaykids.com




1 2 3 4 5 6 7



1 2 3 4 5 6 7

© 2023 truewaykids.com

# Crefft - Llyfr Gweddi



## Byddwch angen:

Carden neu sbwng
Papur
Pensil
Siswrn
Pwnsh Twll
Llinyn
Lluniau os ydych chi eisiau


## Beth i'w wneud:



Ewch o gwmpas dwylo'ch plentyn mewn siâp gweddi gyda phensil ar y cerdyn neu'r sbwng. Torrwch ddau gopi a chymaint o gopïau ag a ddymunir ar y papur. Bydd pob llaw yn gwneud tudalen.




Rhowch y papur i gyd ar ben ei gilydd. Rhowch ddwylo'r cerdyn ar y top a'r gwaelod. Gwnewch ddau dwll.




Rhowch y llinyn drwy'r tyllau a chlymu gyda'i gilydd i wneud llyfr. Ysgrifennwch neu rhowch luniau yn eich llyfr gweddi.

Share your crafts photos with @truewaykids


© 2023 truewaykids.com



© 2023 truewaykids.com




© 2023 truewaykids.com



© 2023 truewaykids.com

# Peidiwch byth â stopio gweddïo



© 2023 truewaykids.com

# Amser Addoli

Argymhellir caneuon addoli, heb eu cynhyrchu gan Trueway Kids. Fideos 'You Tube' i'w defnyddio at ddefnydd personol yn unig.

Y Weddw oedd yn gwrthod rhoi'r gorau iddi- Stori o'r Beibl i blant



https://youtu.be/AmZt8JooYFs

Do Not Give Up

https://youtu.be/uJ6JQEPADsA

God Answers Prayer

https://youtu.be/ABoyVKTPY5c



# Amser Gweddi

Diolch i Dduw ei fod yn dda a bob amser yn gwrando ac yn ateb ein gweddïau.

Gofynnwch iddo eich helpu i weddïo bob dydd a pheidio byth â rhoi'r gorau iddi.

# Wythnos Nesaf

## Yr Hedyn Mwstard

Os nad ydych wedi gwneud yn barod, cytunwch i dderbyn gwersi yn y dyfodol trwy e-bost.
truewaykids.com/subscribe/

© 2023 truewaykids.com